OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 767

# Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) (Diwygio) 2018

**Diwygio Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) 2018**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) 2018(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 (cyfeiriad at ymchwilydd ariannol achrededig sy'n aelod o staff ACC) o'r Atodlen—

(a) ym mharagraff 3, ar ôl "290(4)(c)" mewnosoder "a'r cyfeiriad yn adran 297A(6)(c)(**2**)";

(b) ar ôl paragraff 3 mewnosoder—

"**3A.** Adran 303C(9)(d)(**3**) (swyddog perthnasol at ddibenion Pennod 3A), adran 303L(5)(d) (personau penodedig - cadwad pellach o eiddo yr ymafaelwyd ynddo) ac adran 303O(2)(d) (personau penodedig - fforffedu eiddo).

**3B.** Adran 303Z1(6)(**4**) (swyddog gorfodi at ddibenion Pennod 3B) ac adran 303Z14(3)(d) (personau penodedig at ddibenion ceisiadau fforffedu cyfrif).";

(c) ym mharagraff 4, ar ôl "352(5)(c)" mewnosoder ", (ca) ac (cb)(**5**)";

(d) ym mharagraff 5, ar ôl "353(10)(c)" mewnosoder ", (ca) ac (cb)(**6**)"; ac

(e) ar ôl paragraff 7 mewnosoder—

"**7A.** Adran 378(3C)(c)(**7**) (y swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau eiddo dan gadwad o dan Ran 8).

**7B.** Adran 378(3E)(c) (y swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau cyllid clo o dan Ran 8)."

(3) Yn Rhan 2 (cyfeiriad at ymchwilydd ariannol achrededig sy'n aelod o staff ACC ac sydd ar radd 7 neu uwch neu radd gyfatebol) o'r Atodlen—

(a) ar ôl paragraff 11 mewnosoder—

"**11A.** Adran 297A(6)(c) (uwch-swyddog at ddiben rhoi hysbysiad fforffedu).

(**1**) O.S. 2018/196 (Cy. 45).
(**2**) Mewnosodwyd adran 297A gan adran 65(1) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26). Fe'i diwygiwyd gan baragraff 14 o Atodlen 21 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 34(7) o Ddeddf Cyllid Troseddol 2017 (p. 22) ("Deddf 2017") a pharagraff 19 o Atodlen 1 iddi.
(**3**) Mewnosodwyd adrannau 303C, 303L a 303O gan adran 15 o Ddeddf 2017.
(**4**) Mewnosodwyd adrannau 303Z1 a 303Z14 gan adran 16 o Ddeddf 2017.
(**5**) Mewnosodwyd adran 352(5)(ca) ac (cb) gan baragraff 47 o Atodlen 5 i Ddeddf 2017.
(**6**) Mewnosodwyd adran 353(10)(ca) ac (cb) gan baragraff 48 o Atodlen 5 i Ddeddf 2017.
(**7**) Mewnosodwyd adran 378(3C) i (3F) gan baragraff 59 o Atodlen 5 i Ddeddf 2017.

**11B.** Adran 303E(4)(f)(**8**) (uwch-swyddog at ddibenion cymeradwyaeth ymlaen llaw i gynnal chwiliadau).

**11C.** Adran 303Z2(4)(e)(**9**) (uwch-swyddog at ddibenion Pennod 3B).

**11D.** Adran 336D(7)(h)(**10**) (uwch-swyddog at ddibenion adran 336A (pŵer y llys i estyn y cyfnod moratoriwm)).”; a

(b) ar ôl paragraff 13 mewnosoder—

“**13A.** Adran 378(3D)(c) (uwch-swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau eiddo dan gadwad o dan Ran 8).

**13B.** Adran 378(3F)(c) (uwch-swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau cyllid clo o dan Ran 8).”

(**8**) Mewnosodwyd adran 303E gan adran 15 o Ddeddf 2017.
(**9**) Mewnosodwyd adran 303Z2 gan adran 16 o Ddeddf 2017.
(**10**) Mewnosodwyd adran 336D gan adran 10(4) o Ddeddf 2017.